Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

MEDDIANNU AMGUEDDFEYDD TAKING OVER MUSEUMS

Case Study / Astudiaeth Achos
Harlech Castle / Castell Harlech

WHY TAKE PART ?

Harlech Castle is a World Heritage Site, managed by Cadw – the Welsh Government's historic environment service. The Castle had not previously taken part in Taking Over Museums but thought it would be a good way to build a relationship with a local school which was within walking distance. The Head Custodian, who ran the day, had observed a Taking Over Museums event at another museum and approached a school to participate. The day was planned by Harlech Castle staff.

WHO TOOK PART ?

Fifteen children from Years 5 and 6 (9-11 year olds).

WHAT DID THEY DO ?

The children worked as front of house staff and health and safety experts. They also created short plays which linked to their literacy work on Owain Glyndwr, a 14th Century Welsh Prince who captured from the English and lived in Harlech Castle, and performed these for parents and visitors on the day.

HOW DID THEY SPEND THEIR TIME ON THE DAY?

Prior to the day, the children visited the Castle to familiarise themselves with the site. They undertook research and found out more about Owain Glyndwr.

On Taking Over Museums Day students acted as:

- **Stewards** – in the morning they greeted visitors, answered the telephone and served in the shop. The children undertook a health and safety inspection prior to opening, visiting all parts of the Castle and completing a check list. They also contributed to the Castle's Twitter feed during the day, using the Kids in Museums resource How Can Teenagers Take Over our Twitter Feed as a guide.

BETH OEDD EICH RHESWM DROS GYMRYD RHAN?

Mae Castell Harlech yn un o Safleoedd Treftadaeth y Byd, ac mae o dan reolaeth Cadw – gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru. Nid oedd y Castell wedi cymryd rhan o'r blaen yn y Diwrnod Meddiannu ond teimlai y byddai'n ffordd dda o adeiladu perthynas gydag ysgol leol oedd o fewn tafliad carreg iddo. Roedd y Prif Geidwad, a oedd yn rheoli'r diwrnod, wedi gwylio'r Diwrnod Meddiannu ar waith mewn amgueddfa arall a gofynnodd i'r ysgol gymryd rhan. Cynlluniwyd y diwrnod gan staff Castell Harlech.

PWY GYMERODD RAN?

Pymtheg plentyn o Flynyddoedd 5 a 6 (9-11 oed).

BETH WNAETHON NHW?

Gweithiodd y plant fel staff blaen tŷ ac arbenigwyr iechyd a diogelwch. Aethent ati hefyd i greu dramâu byrion oedd yn cysylltu â'u gwaith llythrennedd am Owain Glyndŵr, Tywysog o'r 14eg Ganrif a gipiodd dir gan y Saeson ac a fu'n byw yng Nghastell Harlech, a chawsent berfformio'r rhain i rieni ac ymwelwyr ar y diwrnod.

SUT DREULIODD PAWB EU HAMSER AR Y DIWRNOD?

Cyn y diwrnod, bu'r plant yn ymweld â'r Castell i ddod yn gyfarwydd â'r safle. Aethent ati i wneud gwaith ymchwil a chanfod rhagor am Owain Glyndŵr.

Ar y Diwrnod Meddiannu bu'r myfyrwyr yn gweithio fel:

- **Stiwardiaid** – yn y bore roeddent yn cyfarch yr ymwelwyr, yn ateb y ffôn ac yn gweini yn y siop. Gwnaeth y plant archwiliad iechyd a diogelwch cyn agor, ymweld â phob rhan o'r Castell a mynd trwy restr wirio. Cyfrannodd y plant hefyd at borthiant y Castell ar y Trydar yn ystod y dydd, gan ddefnyddio adnodd Kids in Museums Sut Gall Bobl Ifanc Feddiannu ein Porthiant Trydar i'w harwain.

- **Drama Creators** – in the afternoon they used the Great Hall, the Kitchen and the Gatehouse, to inspire and create dramatic stories of Owain Glyndwr. They devised and performed short plays for their parents and other visitors.

WHAT HAPPENED NEXT?

The children were excited to takeover in the place where Owain Glyndwr once lived. Participating in Taking Over Museums enriched their curriculum learning, encouraged a sense of pride in their own local and national heritage and increased their enjoyment.

A professional photographer collated images to highlight the children's and visitors' verbal feedback. The Marketing Manager sent out a press release which attracted ITV Wales to report on the event. This raised the Castle's profile as some visitors mentioned they had seen the Castle on television.

The day was run by the Head Custodian and the Marketing Manager as there is no education team at the Castle. They found the day challenging as it was something very new, but the success of the event has encouraged them to plan future learning projects.

The Castle is undergoing re-development and plans to become more welcoming and accessible for young people and families. Staff will consult the children who participated in Taking Over Museums and collect their views and contributions on ways to effectively interpret the site.

'Taking Over Museums has laid the foundation for a strong, working relationship with Harlech's primary school. Their pupils interpreted and brought to life areas of the castle in a way that had never been done before.'
Head Custodian

- **Cyfansoddwyr Dramâu** – yn y prynhawn aethent ati i ddefnyddio'r Neuadd Fawr, y Gegin a'r Porthdy, i ysbrydoli a chreu straeon dramatig am Owain Glyndŵr. Roeddent yn dyfeisio ac yn perfformio dramâu byrion i'w rhieni ac i ymwelwyr eraill.

BETH DDIGWYDDODD WEDYN?

Roedd y plant wrth eu boddau'n meddiannu'r fan lle bu Owain Glyndŵr yn byw ar un cyfnod. Roedd cymryd rhan yn y Diwrnod Meddiannu wedi cyfoethogi eu dysgu yn y cwricwlwm, wedi eu hannog i ymfalchïo yn eu treftadaeth leol a chenedlaethol eu hunain ac wedi cynyddu eu mwynhad.

Casglwyd lluniau at ei gilydd gan ffotograffydd proffesiynol i dynnu sylw at adborth llafar y plant a'r ymwelwyr. Anfonodd y Rheolwr Marchnata ddatganiad i'r wasg a barodd i ITV Wales ddarlledu adroddiad am y digwyddiad. Cododd hyn broffil y Castell oherwydd soniodd rhai o'i ymwelwyr eu bod wedi gweld y Castell ar y teledu.

Rheolwyd y diwrnod gan y Prif Geidwad a'r Rheolwr Marchnata am nad oes tîm addysg yn y Castell. Roeddent yn teimlo bod y diwrnod yn heriol am ei fod yn rhywbeth newydd iawn, ond mae llwyddiant y diwrnod wedi eu hannog i gynllunio prosiectau dysgu'r dyfodol.

Mae'r Castell yn cael ailddatblygiad ar hyn o bryd ac yn gobeithio dod yn fwy croesawgar a hygyrch i bobl ifanc a theuluoedd. Bydd y staff yn ymgynghori â'r plant a gymerodd ran yn y Diwrnod Meddiannu a chasglu eu sylwadau a'u cyfraniadau ar ffyrdd o ddehongli'r safle'n effeithiol.

'Mae'r Diwrnod Meddiannu wedi gosod y sylfaen ar gyfer perthynas weithio gref gydag ysgol gynradd Harlech. Bu eu disgyblion yn dehongli ac yn adfywio ardaloedd o'r castell mewn ffordd oedd heb ei wneud erioed o'r blaen.'
Prif Geidwad